Cân y Postmon

1. Pwy, pwy, pwy sy'n dod bob bore
   Cyn wyth o'r gloch?
   Pwy, pwy, pwy sy'n mynd o stryd i stryd
   Mewn fan fach goch?

CYTGAN
Rat-a-tat, rat-a-tat, rat-a-tat-tat;
Rat-a-tat, rat-a-tat, rat-a-tat-tat;
Jac y post yn ei fan fach goch,
Ar ei rownd bob bore cyn wyth o'r gloch.

2. Pwy, pwy, pwy sy'n gwthio llythyr
   Neu gerdyn tlws,
   Catalog ac ie, bil neu ddau
   I mewn drwy'r drws?

CYTGAN
Rat-a-tat, rat-a-tat, rat-a-tat-tat;
Rat-a-tat, rat-a-tat, rat-a-tat-tat;
Jac y post yn ei fan fach goch,
Ar ei rownd bob bore cyn wyth o'r gloch

3. Pwy, pwy, pwy sy'n dod â pharsel,
   Anrheg i mi?
   Pwy, pwy, pwy sy'n dod ar ddydd pen-blwydd
   Â chardiau lu?

CYTGAN
Rat-a-tat, rat-a-tat, rat-a-tat-tat;
Rat-a-tat, rat-a-tat, rat-a-tat-tat;
Jac y post yn ei fan fach goch,
Ar ei rownd bob bore cyn wyth o'r gloch
X2